



Gwybodaeth am *Salmonella* i brynwyr defaid

Ers 2017 mae APHA wedi ymchwilio i 2 ddigwyddiad difrifol o fath o *Salmonella* Tyffimwriwm mewn defaid, sy'n gysylltiedig ag achos o glefyd dynol.

Mae rhai achosion o glefyd dynol wedi bod yn gysylltiedig ag achosion o drin neu fwyta cig oen a chig dafad.

Os yw eich busnes yn cynnwys prynu a gwerthu defaid yn rheolaidd – yn enwedig mamogiaid difa – rydych yn wynebu risg uwch o gyflwyno *Salmonella* i'ch fferm, gan ledaenu'r haint hwnnw i safleoedd eraill ac efallai i'r gadwyn fwyd ddynol.

Mae'r Nodyn Gwybodaeth hwn yn bwriadu eich helpu i wneud y canlynol:

- Lleihau'r risg o gyflwyno *Salmonella* i'ch daliad, a'r risg y bydd yn ymledu ymhellach i lawr y gadwyn fwyd.
- Lle mae *Salmonella* wedi cael ei gyflwyno eisoes, lleihau'r risg o glefyd clinigol.
- Rheoli'r risg i'r gadwyn fwyd lle mae clefyd yn digwydd.

Beth sydd angen i chi ei wybod

- Mae gan y rhan fwyaf o grwpiau o ddefaid y potensial i gario rhyw fath o *Salmonella*. Gall rhai fod yn ddiniwed ond gall rhai eraill achosi clefyd difrifol mewn anifeiliaid a phobl.
- Os dewch ag anifeiliaid newydd i'ch fferm maent yn risg heintio – felly ceisiwch eu cadw ar wahân i'r anifeiliaid eraill am o leiaf 4 wythnos.
- Os oes gennych drwybwn uchel o ddefaid ar eich fferm, ceisiwch weithredu preiddiau fel grwpiau sefydlog ar wahân – heb 'ychwanegu' anifeiliaid newydd at grwpiau.
- Dylid cynnal safonau da o fioddlogelwch bob amser a sicrhau eich bod yn defnyddio diheintydd effeithiol a gymeradwywyd ar y crynodiad cywir.
- Os oes gennych ddefaid sâl, yn enwedig â dolur rhydd difrifol, marwolaethau neu erthyladau – ymgynghorwch â'ch milfeddyg ac edrychwch ar y cyngor manwl: <http://apha.defra.gov.uk/documents/surveillance/diseases/info-note-sal-farmers.pdf>



Gwybodaeth am *Salmonella* i brynwyr defaid

- Os darganfyddir *Salmonella*, peidiwch ag anfon defaid i'w lladd heb ei ddatgan ar Ddatganiad Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd tan 8 wythnos ar ôl i'r anifail sâl olaf wella.

Gall defaid sydd â *Salmonella* fod yn **ddi-fywyd** â **dolur rhydd**, a gall fod **cyfraddau marwolaethau uchel** ymhlith preiddiau. Fodd bynnag, nid yw pob praidd nac anifail heintiedig yn arddangos arwyddion clinigol. Gall defaid iach gario a gwaredu *Salmonella* o hyd.

Mae gwartheg, dofednod, ceffylau, cŵn a bywyd gwyllt hefyd wedi cael canlyniad positif i brawf am y math hwn o *Salmonella*. Efallai na fyddant yn dangos arwyddion clinigol ychwaith, nac yn dioddef o ddolur rhydd.

Gall ffermwyr, cludwyr, eu staff ac aelodau o'u teuluoedd gael eu heintio drwy gyswllt uniongyrchol ag anifeiliaid heintiedig.

Gall *Salmonella* gael ei gyflwyno i'ch fferm drwy:

- Symud anifeiliaid – sy'n iach yr olwg neu fel arall
- Cyfarpar a pheiriannau e.e. trin/dosio neu rannu cyfarpar
- Cerbydau – yn enwedig bwâu olwynion ac ardaloedd traed halogedig
- Dillad, esgidiau, wagenni bwyd neu gymysgu halogedig
- Dŵr wyneb halogedig
- Adar gwyllt, cŵn a phlâu megis llygod

Yn dibynnu ar y tywydd, gall *Salmonella* oroesi am fisoedd o bosibl yn amgylchedd y fferm, mewn siediau ac ar laswelltir.

Mae busnesau fferm sy'n symud niferoedd mawr o stoc (e.e. mamogiaid difa) i mewn ac allan o'r un grŵp o sawl ffynhonnell yn wynebu risg uchel o gael *Salmonella* a chlefydau eraill.

Gall cyfnodau trosiant byr a dwyseddau stocio uchel waethygu hyn, gan beri i halogiad amgylcheddol gronni. Gall hyn achosi lefelau uchel o amlygiad a risg uwch o glefyd clinigol i anifeiliaid sydd newydd gyrraedd. Mae anifeiliaid sy'n gadael yn fwy tebygol o fod yn halogedig wrth iddynt gael eu symid i gael eu lladd neu i ffermydd eraill.



Gwybodaeth am *Salmonella* i brynwyr defaid

Trefnwch eich arferion rheoli fferm i leihau'r risg a lledaenu'r haint drwy:

1. Lleihau'r straen ar ddefaid

- Mae anifeiliaid dan straen sy'n cario *Salmonella* yn debygol o waredu mwy o bacteria i'r amgylchedd a dod yn glinigol sâl.
- Ceisiwch gyfuno gweithdrefnau rheoli i leihau'r gwaith o drin a chymysgu grwpiau o ddefaid lle y bo'n bosibl.
- Sicrhewch nad yw dwyseddau stocio'n rhy uchel (yn enwedig yn ystod cyfnodau o straen hinsoddol, e.e. cyfnod sych) ac y gall pob dafad gael dŵr glân a defnyddio cafn yn hawdd. Byddwch yn ymwybodol o'r straen a achosir gan amodau tywydd garw neu gyfnewidiol.
- Ymgynghorwch â'ch milfeddyg ynglŷn ag achosion posibl o straen – heintiau llyngyr, diffygion elfennau hybrin, a chyflyrau sy'n atal y system imiwnedd megis Clefyd Border.

2. Bod yn wylidwrus i adnabod unrhyw arwydd o glefyd ymhlith eich anifeiliaid.

- Ymgynghorwch â'ch milfeddyg i gael cyngor cyn gynted â phosibl os byddwch yn gweld yr arwyddion clinigol uchod, gan roi gofal priodol i'r anifeiliaid sâl a chadw'r grŵp hwn ar wahân i'r stoc arall.
- Osgowch anfon unrhyw anifail o'r grŵp yr effeithir arno (boed yn iach ai pheidio) i'r farchnad, i'w ladd neu i ffermydd eraill er mwyn lleihau'r risg o ledaenu clefyd a lleihau'r risg o roi'r gadwyn fwyd mewn perygl.
- Mae anifeiliaid iach yr olwg o grwpiau yr effeithir arnynt hyd yn oed yn wynebu risg o ysgarthu niferoedd uchel o organebau *Salmonella* ac o gael cneifiau wedi'u halogi â *Salmonella*. Gall y straen o symud wneud anifeiliaid o'r fath yn glinigol sâl.
- Dylech bob amser gyflwyno datganiad Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd (FCI) wrth drosglwyddo anifeiliaid i'r lladd-dy a rhoi gwybodaeth am unrhyw anifail sy'n dangos arwyddion o unrhyw gyflyrau a all effeithio ar ddiogelwch y cig.
- Ar hyn o bryd mae APHA yn eich cyngori i gadw'r grŵp yr effeithir arno fel grŵp sefydlog, dylai lefelau'r risg fod wedi lleihau i lefelau cefndirol erbyn tua 8 wythnos ar ôl i'r anifail olaf sy'n glinigol sâl wella. Dylai'r FCI ar gyfer anifeiliaid o grŵp yr effeithir arno a gaiff eu symud nodi presenoldeb *Salmonella* neu amheuaeth ohono yn ystod y cyfnod hwn ond nid wedi hynny.

3. Cadw grwpiau sefydlog o anifeiliaid ar wahân i'w gilydd.

- Dylid cadw grwpiau ar wahân er mwyn osgoi cysylltiad corfforol.
- Dylid rheoli adeiladau a chaeau unigol ar sail system i gyd i mewn, i gyd allan hyd y gellir, gyda gwaith Glanhau a Diheintio effeithiol ar adeiladau a chyfarpar rhwng llwythi.



Gwybodaeth am *Salmonella* i brynwyr defaid

- Dylid creu clustogfa â rhagofalon bioddiogelwch rhwng anifeiliaid presennol a newydd nes i'r rhai presennol gael eu clirio.

4. Cynnal bioddiogelwch o fewn eich fferm.

- Gellir cael cyngor cyffredinol yn: <https://www.gov.uk/guidance/disease-prevention-for-livestock-farmers>
- Mae unrhyw gyswllt a rennir â ffermydd eraill, boed drwy beiriannau, delio â chyfarpar, hyrddod neu deirw, staff neu adnoddau, yn ffactor risg posibl ar gyfer trosglwyddo *Salmonella*.
- Os oes modd, gwiriwch statws iechyd da byw cyn prynu neu werthu anifeiliaid a phrynwch yn uniongyrchol oddi wrth ffermydd.
- Glanhewch gyfarpar/cerbydau brwnt gyntaf bob amser i gael gwared ar halogiad gweladwy cyn diheintio.
- Defnyddiwch ddiheintyddion a gymeradwyir gan Defra ar gyfradd wanhau'r Gorchmynion Cyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys diheintyddion Chlorocresol sy'n gweithredu'n gyflym er mwyn eu defnyddio mewn sawl sefyllfa lle mae angen diheintio rhag *Salmonella* a phathogenau eraill.

Diheintydd	Cyfradd wanhau
Bi-OO-Cyst	1:50
Cyclex	1:24
Interkokask	1:50
KC5000	1:50
Kilcox	1:50
VirkonLSP	1:40

- Cyflwynwch a chynhaliwch raglen rheoli pla a chadwch eich buarth a'r ardal o'i amgylch yn lân ac yn daclus i gadw fermin draw.
- Dylid cyfyngu ar fynediad plâu at borthiant sydd wedi'i storio, cyfyngu ar fannau clwydo neu nythu posibl, a rhoi strategaethau atal a rheoli priodol ar waith.
- Dylid lleihau mynediad gan adar gwyllt drwy gyfuniad o ddulliau – e.e. barcutiaid, bwganod brain, sgrechwyr larwm galw adar neu hebogyddiaeth

- Wrth reoli clefyd heintus megis *Salmonella* mewn anifeiliaid fferm mae angen gweithredu mesurau bioddiogelwch a hylendid fferm sydd wedi'u teilwara i anghenion â'r flaenoriaeth uchaf i'ch fferm yn ofalus.
- Dylai'r rhagofalon a nodir uchod helpu i leihau'r risg o gyflwyno amrywiaeth o glefydau a'u parhad, felly dylai fod yn fuddiol i iechyd cyffredinol a chynhyrchiant eich da byw.



Gwybodaeth am *Salmonella* i brynwyr defaid

- Gall symud defaid yn rheolaidd i safleoedd fferm ac oddi arnynt gynyddu'r risg o gael a lledaenu haint *Salmonella* yn sylweddol. Mae'n bwysig cynnal grwpiau sefydlog ac osgoi cymysgu lle bynnag y bo'n bosibl.
- Peidiwch ag anfon unrhyw anifeiliaid o grwpiau yr effeithir arnynt i'r lladd-dy, i'r farchnad, nac i ffermydd eraill tan o leiaf 8 wythnos ar ôl i bob anifail wella.
- Cymerwch gamau i amddiffyn eich busnes ac iechyd pobl ac anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys cwblhau datganiadau FCI yn gywir.
- Mae hylendid personol da yn bwysig i atal *Salmonella* a chlefydau milheintiol eraill, yn enwedig mewn unigolion ifanc, hŷn neu rhai sydd ag imiwnedd gwan sy'n fwy tebygol o gael haint.